**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**146 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 24 Gorffennaf 2019*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 46 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Amherthnasol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | 4 Medi 2019 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 5 Medi 2019 |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau pontio sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r Fframwaith Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/821), Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/822) a Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/824) i roi ystyriaeth i ddiwygiadau dilynol i'r diffiniad o "diwrnod ymadael" yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16).

Roedd y drafftio gwreiddiol yn dibynnu ar y diwrnod ymadael gwreiddiol a fwriadwyd, sef 29 Mawrth 2019.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i gywiro gwallau yn Rheoliadau Datblygu Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/764), Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Darpariaethau Atodol Cyllido, Rheoli a Monitro) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019 (O.S. 2019/765), Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Mesurau'r Farchnad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 (O.S. 2019/812) a Rheoliadau'r Fframwaith Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae'r offerynnau statudol a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a mesurau'r farchnad amaethyddol.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 30 Gorffennaf 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith gyfyngedig.